**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**30 TACHWEDD 2023**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 30 Tachwedd 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Bill Crease, Gladys Healey, Dave Mackie, Gina Maddison, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, David Richardson, Jason Shallcross ac Arnold Woolley

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Lisa Allen**,** Lynne Bartlett a Wendy White

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Cynghorwyr: Bernie Attridge a Chrissy Gee fel arsyllwyr

**YMDDIHEURIADAU:**
Cynghorwyr: Paul Cunningham, Ryan McKeown ac Ian Roberts.

**CYFRANWYR:**
Cynghorydd Mared Eastwood (Aelod Cabinet Addysg, Y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden); Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles); Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Gludiant Ranbarthol); Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Cryf gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael); Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Uwch Reolwr (Cynllunio a Darparu Lleoedd Ysgolion) ac Uwch Reolwr (Gwasanaethau Cefnogi Busnes)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

**34. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

**35. COFNODION**

14 Medi 2023

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2023 i'w cymeradwyo.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Bill Crease a Carolyn Preece.

19 Hydref 2023

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023 i'w cymeradwyo.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Dave Mackie a Mrs Lynne Bartlett.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Medi ac 19 Hydref 2023 a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 36. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlinellodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr eitemau a restrwyd ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a oedd ynghlwm yn Atodiad 1 a chyfeiriodd at yr Adolygiad Cymheiriaid Cyfiawnder Ieuenctid a oedd wedi'i symud i gyfarfod mis Chwefror.

Gan gyfeirio at yr adroddiad Olrhain Camau Gweithredu yn Atodiad 2, cadarnhawyd bod mwyafrif y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf wedi'u cwblhau. Roedd yr adroddiad Allsirol wedi'i gynnwys ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd gyda chais am Weithdy ar Leoliadau Allsirol ar gyfer Aelodau newydd wedi'i drosglwyddo i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. Rhoddwyd diweddariad ar y cais am adroddiad ar Gadw a Recriwtio.

Awgrymodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y dylid diwygio pwrpas yr eitem Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg Cymru a restrwyd ar gyfer y cyfarfod Craffu ar y Cyd ar 27 Mehefin i adlewyrchu trosolwg cyfan o Addysg cyn ac ôl-16.

Gofynnodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst pam fod "Mynd i'r Afael ag Effaith Anghydraddoldeb ar Ganlyniadau Addysg" yn dal i gael ei restru fel eitem i'w hamserlennu. Cytunodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu i gymryd hyn fel cam gweithredu o'r cyfarfod i sicrhau y neilltuwyd dyddiad cyfarfod ar ei gyfer.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Mackie at ei gais yn y cyfarfod diwethaf am restr o gyrsiau dysgu proffesiynol a gynigir gan GwE ac at y ddogfen a dderbyniodd gan ddweud ei bod yn anodd ei deall. Roedd y wybodaeth yr oedd wedi gofyn amdani yn ymwneud â:-

- Pa hyfforddiant oedd yn cael ei gynnig i athrawon yn Sir y Fflint;
- Pa hyfforddiant oedd yn cael ei ddyfeisio;
- Beth oedd pwrpas yr hyfforddiant;
- Faint o bobl a ddisgwylir i ddod i'r hyfforddiant.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie at y wybodaeth hyfforddi a ddarparwyd gan GwE a theimlai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys mwy o fanylion ynghylch pa gyrsiau a chyfleoedd hyfforddi oedd ar gael i ysgolion. Credai y gellid cael gwell dealltwriaeth wedyn pe gellid cymharu dadansoddiad o hyfforddiant yn ysgolion Sir y Fflint â Siroedd eraill.

Dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) fod yr atodiad yr oedd yr Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) wedi'i anfon at y Cynghorydd Mackie wedi'i ddarparu gan GwE a'i fod yn amlinellu'r holl hyfforddiant a chymorth proffesiynol a ddarperir i ysgolion Sir y Fflint. Cadarnhawyd hefyd fod cyfarfod wedi'i drefnu rhwng y Cynghorydd Mackie, yr Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) a Swyddogion GwE er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie at y cam gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a oedd yn ymwneud ag adroddiad ar ddemograffeg a gofynnodd pam nad oedd yn dangos yn yr eitemau i'w hamserlennu. Eglurodd y Prif Swyddog y byddai'r wybodaeth am effeithiau demograffeg disgyblion yn cael ei chynnwys mewn adroddiadau cyllideb, fodd bynnag, pe bai angen mwy o wybodaeth ar yr Aelodau, yna gellid trefnu gweithdy. Roedd y Cynghorydd Mackie yn meddwl tybed a ellid darparu adroddiad diweddaru rheolaidd, yn debyg i'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch balansau ysgolion, gan ei fod yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol. Cytunwyd ar hyn gan y Prif Swyddog.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Parkhurst at y graddau cyflwr o fewn ysgolion ac at y wybodaeth a ddarparwyd, a gofynnodd gan fod y data wedi'i gasglu yn 2016/17 a bod hyn yn cael ei ailasesu bob 5 mlynedd, a oedd mwy o ysgolion bellach wedi'u gosod yng Nghategori C. Mewn ymateb eglurodd yr Uwch Reolwr (Cynllunio a Darparu Lleoedd Ysgolion) fod y wybodaeth a ddarparwyd yn ymwneud ag amser penodol a bod rhai gwelliannau wedi eu gwneud gyda sefyllfaoedd rhai adeiladau yn gwella. Bu oedi oherwydd Covid ond roedd tîm technegol y portffolio, ynghyd â chefnogaeth tîm ymgynghorol allanol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ar fin cychwyn adolygiad llawn o'r rhwydwaith ysgolion er mwyn gallu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflyrrau.

Gofynnodd y Cynghorydd Carolyn Preece a ellid darparu gwybodaeth ar y Fframwaith Arolygu newydd gan Estyn ar gyfer Ysgolion i'r Pwyllgor naill ai fel gweithdy i'r holl aelodau neu fel adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol. Cytunwyd ar hyn.

Mewn ymateb i gwestiynau ar y gyllideb a chais am gynnwys gwybodaeth portffolio wrth symud ymlaen gan y Cynghorydd Parkhurst, cytunodd y Prif Swyddog â'r sylwadau a wnaed gan ddweud bod ffigurau'r gyllideb portffolio wedi'u cynnwys yn flaenorol. Rhoddwyd trosolwg manwl o'r pwysau ar y gyllideb, y defnydd o arian grant a'r risgiau i'r portffolio. Ychwanegodd nad oedd unrhyw awgrymiadau gan swyddogion wedi'u cynnwys gan nad oedd unrhyw le ar ôl i fynd i ddod o hyd i arbedion, a bod y cyllidebau'n cefnogi gwasanaethau statudol i blant a phobl ifanc heb unrhyw hyblygrwydd.

Mewn ymateb i gwestiynau ar Leoliadau All-sirol a Chostau Gofal Preswyl gan y Cynghorydd Parkhurst, eglurodd y Prif Swyddog mai amcan y portffolio oedd cynnal cymaint o ddysgwyr â phosibl yn eu hysgolion a'u cymunedau lleol. Byddai'r Uwch Reolwr (Cynhwysiant Ysgolion) yn gallu rhoi mwy o fanylion pan fyddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cydbwyllgor ym mis Mehefin. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y cyllid a ddirprwywyd i ysgolion i gefnogi plant oedd wedi eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol a'r gwaith a wnaed gan y Panel Cymedroli wrth benderfynu a oedd anghenion person ifanc y tu hwnt i gylch gorchwyl yr ysgol. Nid oedd y cyllid yn ddigonol i gefnogi'r nifer cynyddol o

bobl ifanc ag anghenion cymhleth a rhoddwyd trosolwg o'r prosesau trwyadl ynghylch dyrannu'r cyllid hwnnw mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid. Roedd y ddarpariaeth arbenigol ar gael mewn ysgolion i gynorthwyo plant ag anghenion megis lleferydd, iaith ac anawsterau dysgu cymedrol. Fodd bynnag, roedd nifer o blant lle'r oedd angen cefnogaeth darparwr allanol ond roedd y farchnad yn gyfyngedig gyda'r darparwyr yn dal yr holl gardiau ac yn gosod y cyfraddau. Eglurwyd y gallai'r awdurdod ddod yn rhan o ryfel bidio pan oedd cyn lleied o leoedd ar gael, a fyddai'n dod â chostau sylweddol ar gyfer addysg a gofal preswyl. Roedd Llywodraeth Cymru yn gweithredu polisi lle dylai'r ddarpariaeth o'r lleoedd hyn fod ar sail ddielw a chanddo oblygiadau ar gyfer darpariaethau yng Nghymru. Gwnaeth y portffolio yr hyn a allai gyda'r adnoddau oedd ar gael.

Cytunodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddweud bod y gyllideb all-sirol yn heriol gyda'r farchnad yn gystadleuol iawn wrth geisio lleoli plentyn gyda darparwr priodol. Roedd hon yn her i bob awdurdod yng Nghymru mewn marchnad gystadleuol iawn.

Teimlai'r Cynghorydd Dave Mackie fod pwysau ar y gyllideb ar hyn o bryd ar gyfer y cyllid refeniw ar gyfer 20 lle ychwanegol mewn darpariaeth arbennig, a gellid dadlau bod y cwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd Parkhurst yn y broses o gael ei fodloni gan fod y ddarpariaeth hon eisoes wedi'i hadeiladu a bod yr arian a ychwanegwyd at y gyllideb i'r staff redeg y ddarpariaeth honno. Gofynnodd pe byddai'r gyllideb all-sirol yn cael ei symud i ddarpariaeth y Cyngor ei hun, a fyddai'n bosibl cael gwell elw ar yr arian. Cadarnhaodd y Cynghorydd Parkhurst fod y swm mor fawr ond na ddylid colli golwg ar anghenion y plant. Roedd hyn yn ymwneud â gwario'r arian yn y ffordd orau i ofalu am y plant ond hefyd i gael y gwerth gorau i'n preswylwyr.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog mai dyma'r hyn yr oedd y Portffolios yn ceisio'i gyflawni, a chyfeiriodd at adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor a oedd yn amlinellu ystod o strategaethau i gynyddu darpariaeth fewnol y Cyngor. Cyfeiriodd at y gwaith a wnaed gan y Gwasanaethau Plant, y cyfleusterau cartref Plant newydd, y capasiti cynyddol yn yr ysgol gynradd arbenigol a gwella'r ddarpariaeth adnoddau, a gyflawnwyd yn Ysgol Uwchradd y Fflint a'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Roedd y Portffolios yn edrych yn gyson ar ffyrdd o gael gwell gwerth am arian drwy gyflwyno'r ddarpariaeth honno'n fewnol, gan ddefnyddio cyllid grant gan Lywodraeth Cymru pan oedd ar gael, i ehangu'r ddarpariaeth honno i gefnogi mwy o blant yn lleol. Darparwyd gwybodaeth am y broses fonitro drylwyr o amgylch y gyllideb all-sirol gyda chyfarfodydd misol yn cael eu cynnal a oedd yn cynnwys y Prif Gyfrifwyr, hi a'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Uwch Reolwr (Gwasanaethau Plant), yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Dilyniant). Rhoddwyd trosolwg o'r adroddiad a ddarparwyd gan y Prif Gyfrifydd a chadarnhawyd ei fod hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd cymedroli a gynhaliwyd gan y gweithwyr proffesiynol aml-asiantaeth a'i fod yn olrhain pob dysgwr unigol. Roedd y wybodaeth hon yn bwydo i mewn i'r adroddiadau monitro cyllideb misol.

Teimlai'r Cynghorydd Bill Crease fod pawb eisiau'r canlyniadau gorau i'r bobl ifanc hyn, ond y broblem oedd bod yn rhaid i'r Awdurdod gystadlu mewn marchnad amherffaith. Teimlai mai'r unig ffordd o gyflawni hyn oedd cystadlu ac roedd yn bwysig iawn bod amser, ymdrech ac arian yn cael eu neilltuo i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael yn Sir y Fflint.

Cytunodd y Cynghorydd Gladys Healey â'r holl sylwadau a gobeithiai y gallai Sir y Fflint sefydlu ei darpariaeth ei hun a galwodd ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r adnoddau i alluogi'r Cyngor i wneud hyn.

Cytunodd y Cadeirydd gan ddweud bod consensws cyffredinol ein bod am i'n plant aros yn Sir y Fflint ond nad oedd hyn yn bosibl ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y Panel Cymedroli gan ddweud ei fod yn Banel aml-asiantaeth sylweddol gyda chynrychiolwyr o bob adran Addysg, Iechyd a'r Tîm Cyllid. Edrychwyd yn fanwl ar bob achos gyda swm sylweddol o dystiolaeth yr oedd yn rhaid ei chyflwyno a'i hadolygu i sicrhau bod y broses yn cael ei gweithredu'n deg ac yn gyson pan oedd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Sicrhaodd yr aelodau fod y Panel yn gyson yn ceisio bod yn greadigol gan ddefnyddio cyllid grant lle bynnag y bo modd, gan ddefnyddio darpariaeth adnoddau a chynllunio ar gyfer y rownd nesaf o Gyllid Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Cyfeiriodd at gyllid LIC ar gyfer ysgolion ac eglurodd fod y ddwy ysgol arbenigol yn Sir y Fflint yn llawn ac roedd yn falch o glywed y sylwadau heddiw ynghylch cefnogi plant yn lleol. Oherwydd y sefyllfa ariannol bresennol roedd pob rhaglen a gynigiwyd yn dod â phwysau cost i'r Cyngor oherwydd lefelau ymyrraeth gan LIC. Dyna sut y gellid gwneud hyn mor effeithlon, effeithiol a'r hyn y gellid ei gyflawni'n lleol.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece yr argymhellion, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Dave Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu nad oedd wedi'u cwblhau.

## 37. Y DIWEDDARAF AR GYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) Jennie Williams, yr Uwch Reolwr, (Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion) i'r pwyllgor ac amlinellodd y meysydd gwaith yr oedd hi'n ymdrin â nhw.

Wrth gyflwyno'r adroddiad amlygodd yr Uwch Reolwr (Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion) y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, y cyfeiriwyd ati yn flaenorol fel y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Cyflwynwyd y diweddariad diwethaf i'r pwyllgor ym mis Chwefror 2022 ac roedd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed mewn nifer o feysydd ac yn cynnwys gwybodaeth am yr heriau a'r pwysau a oedd yn eu hwynebu. Darparodd yr Uwch Reolwr wybodaeth am y cyllid grant a oedd ar gael a'r tîm bach a gafodd y dasg o gyflawni hyn. Yna tynnodd sylw at

rai pwyntiau allweddol yn yr adroddiad a rhoddodd ddiweddariad ar y Rhaglen Gofal Plant a safle Ysgol Croes Atti a fyddai'r ail ysgol ddi-garbon net a'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd gyntaf. Darparwyd diweddariad ar Gampws 3 i 16 ym Mynydd Isa a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y tîm gwerth cymdeithasol rhagorol a'r effeithiau yr oedd yn eu cael o fewn y gymuned a'r rhwydwaith ysgolion ehangach. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr fod y portffolio wedi gweithredu'r cynigion statudol i gynyddu capasiti yn Drury a Phenyffordd a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2022 a bod cam nesaf yr estyniadau a'r adnewyddu wedi cychwyn. Yna darparwyd gwybodaeth am y broses ymgysylltu ar gyfer Adolygiad Ardal Saltney a Brychdyn a oedd wedi'i chwblhau ac a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Cabinet. Yna rhoddodd yr Uwch Reolwr ddiweddariad ar y Grant Cyffredinol ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim Cynradd a oedd yn dod yn ei flaen yn dda ac roedd hyn wedi galluogi rhai newidiadau o ran adnoddau ac adnewyddu mewn ysgolion cynradd. Gan gyfeirio at Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), cadarnhaodd yr Uwch Reolwr fod cyllid grant cyfalaf o £2m wedi ei dderbyn a chadarnhawyd bod peth arian wedi ei neilltuo i'r Pwll Hydro a ddefnyddir gan yr Ysgolion Arbennig a dysgwyr eraill. Roedd gwaith yn cael ei wneud i gynyddu'r capasiti ar gyfer dysgwyr yr oedd angen cymorth ADY arnynt. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr fod y gwasanaeth wedi defnyddio'r Grant Cyfleusterau Cymunedol a Grantiau Chwaraeon Cymru a oedd wedi galluogi i waith gael ei wneud ar safleoedd ysgolion i gefnogi mynediad cymunedol i'r cyfleusterau hynny.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Bill Crease at Adolygiad Ardal Saltney Brychdyn ac Ysgol Uwchradd Dewi Sant a chododd nifer o gwestiynau ynghylch yr ymgynghoriad cyhoeddus, yr arolwg cyflwr a chyllid ar gyfer cynnal a chadw'r ysgol. Gofynnodd hefyd a oedd unrhyw Uwch Swyddogion neu Aelodau wedi mynychu'r ysgol eleni i weld beth oedd yn digwydd yno.

Mewn ymateb, cydnabu'r Uwch Reolwr bod yr adolygiad hwn wedi cymryd peth amser i symud ymlaen gan fod amgylchiadau cymhleth o amgylch safle'r ysgol a llifogydd yn yr ardal hon. Byddai diweddariad yn cael ei roi i'r Cabinet a'r Pwyllgor ynghylch canlyniadau'r broses ymgysylltu. Eglurodd ei bod hi a swyddogion eraill wedi ymweld â'r ysgol gan fod rhai materion atgyweirio a chynnal a chadw sylweddol wedi codi na chafodd eu hamlygu gan yr awdurdod tan yn weddol ddiweddar. Cyn gynted ag y daeth y tîm yn ymwybodol, roeddent wedi ymweld ac wedi galluogi buddsoddiad sylweddol i ddatrys a gwella'r problemau gwresogi yn yr ysgol. Roedd pryderon ynghylch demograffeg gyda dysgwyr yn osgoi'r ysgol a chafwyd amrywiaeth o ymatebion ynghylch pam fod hyn yn digwydd. Byddai angen ystyried y wybodaeth pan fyddai penderfyniad yn cael ei wneud o ran beth oedd orau i'r ardal.

Dywedodd y Cynghorydd Crease nad oedd y materion llifogydd yn bryder pan wnaed y cynlluniau arfaethedig blaenorol i adeiladu ar y safle. Gan gyfeirio at ddemograffeg, roedd yn deall bod y niferoedd yn cynyddu yn yr ysgol a bod y Cynllun Datblygu Lleol yn galluogi nifer sylweddol o adeiladu tai o fewn 2 neu 3 milltir i'r ysgol. Mewn ymateb, eglurodd yr Uwch Reolwr bod gwaith technegol wedi ei wneud mewn perthynas â TAN 15 a oedd yn cadarnhau bod y llifogydd o ganlyniad i gynhesu byd-eang wedi cynyddu'r newidiadau mewn ardaloedd a fyddai wedi'u datblygu'n flaenorol. Roedd hyn yn cynnwys Saltney ac yn cyfyngu ar yr opsiynau posibl ar gyfer yr ardal. Roedd ystyriaeth wedi'i rhoi i ddemograffeg a gwybodaeth am gyfraddau genedigaethau o 2020 a oedd yn achosi gostyngiad sylweddol a fyddai'n llifo drwy systemau'r ysgol. Roedd digon

o ddysgwyr yn ardal Saltney a allai wneud yr ysgol yn gynaliadwy ond ar hyn o bryd nid oedd y niferoedd lle'r oedd angen iddynt fod. Roedd hyn yn peri pryder.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at faterion llifogydd gan ddweud mai ychydig iawn o ardaloedd yn Sir y Fflint oedd heb eu heffeithio ganddo, ac mai barn yr adran Gynllunio oedd bod yn rhaid adeiladu ar y safleoedd hyn ar ryw adeg. Dywedodd fod y trafodaethau blaenorol a'r oedi ynglŷn â Saltney wedi arwain at symud yr arian i safle Mynydd Isa. Mewn perthynas â'r ymgynghoriad gyda thrigolion lleol cymerodd bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal cyn y datblygiad blaenorol o amgylch safle Saltney. Gofynnodd beth oedd canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw a thybiodd fod y canlyniad wedi galluogi symud datblygiad Saltney ymlaen i'r man lle y dyrannwyd safle. Cyfeiriodd hefyd at ddatblygiad Ysgol Uwchradd Treffynnon, lle un o'r dadleuon oedd bod angen ysgol uwchradd yn yr ardal honno. Roedd materion tebyg o ran demograffeg disgyblion ar y safle hwnnw ac adroddodd ar sgwrs gyda'r Prif Swyddog Addysg ar y pryd a ddywedodd y gallai'r ysgol newydd fod yr ateb yr oedd rhieni ei angen. Gan gyfeirio at ddatblygiadau lleol yn y Meysydd Awyr a'r ddau ddatblygiad o fewn Penarlâg, fe all fod sefyllfa pan ddaw'r CDLl presennol i ben yn 2035 y gallai fod angen 300 o leoedd ysgol uwchradd yn y rhan honno o'r sir. Roedd yn deall bod y polisi dyrannu lleoedd ysgolion yn caniatáu i'r dalgylchoedd symud yn dibynnu ar y galw a bod hyn yn bwysau o fewn ardal Penarlâg.

Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr ei bod yn anodd rhagweld demograffeg ac adroddodd ar yr ardaloedd ym Mhenyffordd a Phenarlâg oedd yn cael eu monitro. Ym Mhenarlâg eglurwyd bod carfannau yn dod i mewn i'r ysgol er nad yw yn eu dalgylch. Roedd y sefyllfa'n cael ei monitro'n barhaus, yn enwedig o ran data symudiadau a CYBLD (casgliad electronig data disgyblion ac ysgol a ddarperir gan holl ysgolion cynradd, canol, uwchradd, meithrin ac arbennig y sector a gynhelir).

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie at y broses o gyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol (UFSM) a deallodd fod rhai ysgolion yn cael anawsterau oherwydd nad oedd plant yn bwyta eu prydau yn ddigon cyflym i alluogi grŵp arall i gael eu prydau bwyd. Adroddodd yr Uwch Reolwr ar yr archwiliadau a wnaed mewn ysgolion o ran cyfleusterau eu ceginau a chydnabuwyd bod hyn yn effeithio ar rai ysgolion o ran eisteddiadau. Cynhaliwyd arolwg gyda rhieni, gofalwyr, dysgwyr ac ysgolion i asesu'r effaith a chanfod a oedd problemau sylweddol. Nid oedd yn ymwybodol o unrhyw faterion ond hoffai siarad â'r Cynghorydd Mackie y tu allan i'r cyfarfod i gael mwy o wybodaeth i alluogi ymchwilio i hyn. Roedd y cyflwyniad wedi bod yn llwyddiannus i ddysgwyr gael y pryd hwn o fewn y sector cynradd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie hefyd at yr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gan ddweud mai un o'r problemau a amlygwyd oedd bod y ddau gynllun yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd a oedd wedi drysu rhieni. Gofynnodd a oedd Llywodraeth Cymru (LlC) yn ymwybodol o'r materion hyn a'r effeithiau yr oedd y cwricwlwm newydd, y pwysau cyllidebol ac ADY, yn eu cael ar ysgolion gyda phob un ohonynt yn dod i mewn ar yr un pryd. Mewn ymateb dywedodd y Prif Swyddog fod yr adroddiad penodol hwn yn cyfeirio yn unig at y Rhaglen Gyfalaf a oedd yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, nid y newidiadau i ddeddfwriaeth ADY yr oedd y Cyng Mackie yn cyfeirio atynt. Eglurodd y byddai'r aelodau'n derbyn diweddariad ar

heriau gweithredu'r ddeddfwriaeth ADY newydd, a'r ddwy system y cyfeiriwyd atynt gan y Cyng. Mackie yn yr adroddiad ADY a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r cydbwyllgor ym mis Mehefin. Roedd hi'n falch o'r ffordd yr oedd y tîm wedi cefnogi ysgolion gyda materion cyfreithiol a chymhleth a oedd yn newydd i bawb gan gynnwys timau swyddogion. Bu ymdrech ar y cyd gyda Phenaethiaid a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol i baratoi ysgolion ar gyfer gweithredu. Eglurodd ei bod yn Gadeirydd y Grŵp Cenedlaethol Cyfarwyddwyr Addysg, a'r Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Dilyniant) oedd Is-Gadeirydd y Grŵp Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer ADY. Mynegwyd pryderon gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cyflymder y newid a nifer y mentrau yr oedd yn rhaid i ysgolion eu rheoli, a thrwy sgyrsiau ag awdurdodau eraill teimlai fod Sir y Fflint wedi gwneud yn arbennig o dda yn cefnogi ysgolion a’u bod wedi cael ymateb cadarnhaol gan Arolygydd Cyswllt Ardal Leol Estyn mewn perthynas â hyn.

Myfyriodd y Cynghorydd Jason Shallcross ar ei amser fel disgybl yn Ysgol Dewi Sant a dywedodd fod gan rieni’r dewis i anfon eu plentyn i Benarlâg a’r ddwy ysgol uwchradd dros y ffin. Dywedodd wrth edrych ymlaen gan nad oedd unrhyw gynlluniau i adeiladu yn Saltney na Brychdyn yn y dyfodol a phan siaradodd â thrigolion, dywedodd wrthynt pe na bai'r ysgol yn cael ei defnyddio y byddai'n cael ei cholli.

Mewn ymateb i sylwadau pellach gan y Cynghorydd Crease, cadarnhaodd y Prif Swyddog eu bod yn gweithio trwy opsiynau a phwrpas y broses ymgysylltu anffurfiol gynnar hon gyda’r ysgol a’r gymuned leol yn Saltney oedd cael y drafodaeth honno, gan fod pawb eisiau’r canlyniad gorau i bob dysgwr, ac i ddod o hyd i fodel fforddiadwy cynaliadwy. Unwaith y byddai’r ymatebion wedi’u derbyn a’u coladu, byddent yn cael eu hadrodd i’r Pwyllgor gyda gwybodaeth gyhoeddus ar gael yn fuan gan fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i’r awdurdod amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer cam nesaf y Cymunedau Dysgu Cynaliadwy erbyn mis Mawrth 2024.

Cynigiwyd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorydd Bill Crease ac eiliwyd gan y Cynghorydd Jason Shallcross.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad a’r cynigion i ddarparu’r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Aelodau O’r Wasg Yn Bresennol

## 38. AELODAU O’R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.37pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**